***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2842 (Cy.306) (C.100)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011

*Gwnaed - - - - 23 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 10 a 11 o Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

**Cychwyn drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthygl 3, mae'r Mesur yn dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Gorchymyn hwn..

**Cychwyn ar 1 Ionawr 2012**

**3.** Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar 1 Ionawr 2012—

(a) Adran 2(2) (dyletswydd i weithredu strategaeth);

(b) Adran 3(3) (gwybodaeth a chyngor yn unol â strategaeth i'w darparu'n ddi-dâl);

(c) Adran 6(1) i (3) (cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru);

(ch) Adran 7 (cyfle i'r cyhoedd gael gweld y strategaeth);

(d) Adran 9 (diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970).

(**1**) 2010 nawm 5.

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Tachwedd 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

Mae'r darpariaethau a grybwyllir yn erthygl 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau penodedig i roi effaith i'r Mesur a dygir hwy i rym y diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

Mae'r darpariaethau a ddygir i rym yn erthygl 3 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2012 ac maent yn gosod dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i baratoi strategaeth a'i rhoi ar waith yn unol â'r Mesur. Rhaid i strategaethau gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid eu cyhoeddi a threfnu eu bod ar gael i'w harchwilio.

Ar 1 Ionawr 2012 bydd holl ddarpariaethau'r Mesur mewn grym.